




Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
ar gyfer Gwent

Adroddiad Blynyddol 2014 - 2015



CYNNWYS

Croeso	3
Darparu Gwasanaeth o'r Ansawdd Gorau Posibl	4
Atal a lleihau troseddu a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	9
Diogelu pobl rhag niwed difrifol	15
Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a darparu gwerth am arian	17
Edrych Ymlaen	18

Cysylltwch â'r Comisiynydd

Ebost: commissioner@gwent.pnn.police.uk

Ffôn: 01633 642 200

We: www.gwent.pcc.police.uk

Twitter: @GwentPCC

Facebook: www.facebook.com/gwentpcc

Gallwch hefyd trawslwytho App GwentPCC



CROESO



Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol sy'n crynhoi ac yn tynnu sylw at gynnydd mentrau allweddol fy swyddfa am y cyfnod 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015. Mae hon yn ddogfen statudol sy'n ofynnol yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae fy Nghynllun Heddlu a Throseddau yn amlinellu'r blaenoriaethau canlynol:

- Darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau posibl
- Atal a lleihau troseddau
- Cymryd camau mwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Diogelu pobl rhag niwed difrifol
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a darparu gwerth am arian.

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda fy nhîm, y Prif Gwnstabl, partneriaid a'r cyhoedd wrth ddatblygu'r amcanion hyn. Wrth baratoi'r adroddiad hwn rwyf wedi ystyried adborth ffurfiol ac anffurfiol gan y cyhoedd, perfformiad y llu, adroddiadau rheoleiddwyr, heriau toriadau ariannol parhaus a system cyfiawnder troseddol sy'n newid. Er ein bod wedi gweld cynnydd yn y troseddau sy'n cael eu cofnodi bu gostyngiad cyffredinol mewn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n dangos proffesiynoldeb, ymrwymiad ac ymroddiad swyddogion a staff.

Rwy'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl a'i swyddogion i gadw'r llu yn atebol am ei berfformiad ac rwy'n ymwneud ag asiantaethau a phartneriaethau eraill i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol.

Yn ogystal, eleni gwelwyd Heddlu Gwent yn arwain ar heddlua diogel ar gyfer Uwchgynhadledd NATO. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob heddwys, aelod o staff a gwirfoddolwr o Went a fu'n gweithio'n ddiflino yn ystod yr uwchgynhadledd a'r paratodau ar ei chyfer. Gallant fod yn falch iawn ohonynt eu hunain; yn y pen draw, fe wnaeth eu gwaith caled a'u hymdrechion sicrhau bod yr achlysur hanesyddol a phwysig hwn i Went a Chymru yn rhedeg yn esmwyth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cynnal rhaglen gyswllt eang ac mae adborth gan y cyhoedd ar y modd y maent eisiau cael eu heddlua wedi cael ei ddefnyddio gan y Prif Gwnstabl yn ei adolygiad cyflawni gweithredol, gan arwain at fwy o heddweision gweladwy yn ein cymunedau.

Rwyf hefyd wedi datblygu fy ymrwymiad i roi dioddefwyr wrth graidd popeth yr ydym yn ei wneud ac wedi defnyddio fy llais yn y gymuned i godi ymwybyddiaeth o feysydd sy'n peri pryder.

Un o agweddau mwyaf pleserus fy swydd yw cael y gallu i gomisiynu gwasanaethau a dyfarnu grantiau i fudiadau neu gyrff sy'n cefnogi fy mlaenoriaethau heddlua. Gallwch ddarllen mwy am hyn ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen fy Adroddiad Blynyddol. Fel bob amser, rwy'n croesawu eich adborth ar y wybodaeth yn ogystal â'ch barn am y gwasanaeth heddlua yr ydych yn ei dderbyn.

Ian Johnston QPM

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Pencadlys yr Heddlu

Croesyceiliog

Cwmbrân

Torfaen

NP44 2XJ

Ffôn: 01633 642 200

Ebost: commissioner@gwent.pnn.police.uk

Gwefan: www.gwent.pcc.police.uk

DARPARU GWASANAETH O'R ANSAWDD GORAU POSIBL

Rydym wedi parhau i weithio'n galed i wrando ar y gymuned ac ymwneud â hi er mwyn sicrhau bod pobl Gwent yn fodlon bod yr heddlu yn darparu gwasanaeth sy'n bodloni eu gofynion. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn hyder y cyhoedd yn y flwyddyn ddiwethaf, ond mae angen i ni weithio gyda'r llu a phartneriaid i barhau i wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Ymgysylltu â'n Cymunedau



My staff and I have continued to meet with you and provide opportunities for you discuss the things that matter to you locally.

357 public engagement activities have been carried out across my office this financial year. This includes meeting with local residents at my public surgeries and during my community walkabouts and meeting with third sector organisations to find out how we can support each other. We have also met with special interest groups

including older people's forums, youth groups and various other community groups to see how we can best work together.

'Eich Llais'

Mae ymgysylltiad rhwng y cyhoedd a Heddlu Gwent o'r pwys mwyaf. Yn sgil adborth o sawl ardal o Went nad oedd y cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau gyda'i Gilydd (PACT) mor effeithiol ag y gallent fod, gweithiais gyda'r llu i adolygu'r modd y mae'n rhyngweithio â'r cyhoedd. Ym mis Mawrth 2015 gwelsom lansio 'Eich Llais' ac ystyriwn hyn yn welliant i'w groesawu yn y modd mae Timau Plismona yn y Gymdogaeth Heddlu Gwent yn ymwneud â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fe wnaeth y llu ymgynghori'n eang gyda phartneriaid lleol a'r cyhoedd i sicrhau bod y broses newydd hon yn cwrdd â gofynion y gymuned yn effeithiol. Nod y broses newydd yw rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd leisio eu barn. Gall trigolion gwrdd â'u Harolygyddion lleol bob pedwar mis a bydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yn parhau i gynnal ystod o gymorthfeydd heddlu rheolaidd mewn cymunedau lleol. Bydd fy nhîm a minnau yn awr yn gweithio â chyd-weithwyr yn yr heddlu i sefydlu'r dull newydd hwn a byddaf yn monitro ei gynnydd yn agos dros y 12 mis nesaf yn rhan o'm cylch gorchwyl i gadw'r Prif Gwnstabl yn atebol am ddarparu heddlua lleol.

Have Your Say

Roedd yr arolwg 'Have Your Say' yn gofyn i chi am adborth ar dri maes, sef:

1. Ar ba lefel y dylem osod elfen heddlua eich treth gyngor;
2. Pa mor berthnasol yw fy mlaenoriaethau heddlu a throseddau; ac
3. Eich barn am fynediad i orsafoedd heddlu.

Fe wnaethom hefyd siarad yn uniongyrchol â rhai o'n cymunedau gan gynnwys Grŵp Menywod Asiaidd Ashiana a Newport People First, ac fe wnaeth eu cyfraniadau gwerthfawr hwy helpu i lywio gwerthusiad terfynol yr ymgynghoriad.

Fe wnaeth yr arolwg helpu i lywio'r adolygiad o'm blaenoriaethau heddlu a throseddau a'r gefnogaeth gyffredinol i'm penderfyniad i osod y dreth gyngor y mae trigolion Gwent yn ei thalu am eu heddlua yn 2015/16 ar 3.99%.

Ein Cymuned Ar-lein

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch ar-lein:

	Mawrth 2014	Mawrth 2015	Cynnydd / Gostyngiad
 Twitter	1,333	2,196	cynnydd o 62.41%
 Facebook	1,040	1,107	cynnydd o 6.4%

- **Gwefan:** Nifer uchaf yr ymweliadau mewn mis i wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau oedd 2,765, a hynny'n cyd-fynd ag adeg cyhoeddi fy Nghronfa Bartneriaeth.
- **App Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent:** Mae'r app wedi cael ei lawrlwytho ychydig dros 300 gwaith bellach, ac rydym yn parhau i hyrwyddo'r cyfleuster hwn i annog y cyhoedd i ymgysylltu â ni mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- **OWL:** Mae gan y system Online Watch Link yr wyf yn ei hariannu a'i chefnogi bellach 50,000 o aelodau cofrestredig yng Ngwent. Mae'r system wedi cael ei defnyddio yn hynod o effeithiol i ledaenu negeseuon yn ymwneud â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau i gynulleidfa mor eang â phosibl.

Maent yn Aros ar Agor

Bu i ganlyniadau'r arolwg 'Have your Say' ac adborth gan y cyhoedd a phartneriaid trwy gydol y flwyddyn hefyd ddylanwadu ar fy mhenderfyniad i gadw gwasanaethau desg flaen ar agor mewn sawl gorsaf heddlu oedd wedi cael eu cau neu a chanddynt oriau agor cyfyngedig. Bellach mae'r ddesg flaen mewn gorsafoedd yng Nghaerffili, Cas-gwent, Maendy, Trefynwy, Pont-y-pŵl, Rhisga ac Ystrad Mynach yn aros ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Fe wnaethom hefyd weithio gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol i agor desg heddlu yn Llyfrgell Caerffili a swyddfa heddlu newydd yn y datblygiad menter gymdeithasol yn Nhrefddyn.

Rwyf wedi bod yn awyddus i weld gorsafoedd heddlu yn cael eu defnyddio i'r eithaf i sicrhau eu bod yn ganolfan i bobl leol ac i sicrhau gwell ymgysylltu â'r gymuned a bod gan Heddlu Gwent bresenoldeb cryf yng nghalon y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Dyna pam y bu i mi gymeradwyo cynlluniau i ganiatáu i Gyngor Tref Bargoed ail-leoli eu swyddfa i'r hen lys y drws nesaf i Swyddfa'r Heddlu Bargoed. Rwyf wrth fy modd ein bod wedi gallu canfod lle i'r Gyngor Tref a darparu canolfan ganolog iddynt yn y dref.



Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Rwyf wedi parhau i ymwneud â'n pobl ifanc. Mae'r cyfarfodydd rhanbarthol chwarterol gyda Fforwm Ieuenctid Gwent yn caniatáu trafodaethau ar y pethau sy'n bwysig iddynt hwy, gan gynnwys canfyddiadau o heddlu lleol a'r berthynas â hwy. Ym mis Chwefror fe ddarperais weithdy preswyl ar gyfer 25 o aelodau y Fforwm Ieuenctid o bob rhan o Went er mwyn trafod y materion hyn.

Yn sgil gweithio gyda'r bobl ifanc fe ddysgais eu bod yn gwerthfawrogi'r Rhaglen Gyswllt ag Ysgolion a ddarperir gan heddweision ac fe wnaethant hefyd fynegi safbwyntiau penodol ar eu profiadau ac ansawdd yr ymwneud â Heddlu Gwent.



Roedd llawer o'r bobl ifanc eisiau mwy o barch y naill i'r llall rhyngddynt hwy a'r heddlu ac roeddent yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant ar swyddogion o safbwynt bodloni anghenion pobl ifanc, yn enwedig ar gydraddoldeb a hawliau plant (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ifanc y byddent yn hoffi mwy o gyfleoedd i ymwneud yn gymdeithasol â Heddlu Gwent a Chadetaid yr Heddlu. Mae adroddiad ar ganlyniadau'r gweithdy yn cael ei rannu gyda'r llu er mwyn helpu i ddatblygu gwaith pellach yn y meysydd a drafodwyd.


Fe wnes i hefyd gymryd rhan mewn sesiwn 'Hawl i Holi i Bobl Ifanc' a gynhaliwyd gan Fforwm Ieuenctid Caerffili, lle bu fy nghyd-banelwyr a minnau yn ateb cwestiynau ar gam-drin domestig, iechyd meddwl, profiad gwaith a pherthynas gyda'r heddlu. Unwaith eto, bydd y trafodaethau yn caniatáu i ni ddatblygu mentrau gyda'r llu i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau canfyddedig a rhai go iawn y gwnaeth y bobl ifanc dynnu sylw atynt, a'm

helpu i gadw'r Prif Gwnstabl yn atebol am y gwasanaethau heddlua a ddarperir yn lleol.

Stopio a Chwilio

Rwy'n parhau i fonitro sut mae heddweision yn defnyddio pwerau stopio a chwilio yng Ngwent, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn gymesur ac yn deg. Yn 2014, fe wnaeth y Prif Gwnstabl ymuno â'r 'Best Use of Stop and Search Scheme' sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd arsylwi ar yr ymwneud rhwng swyddogion a'r unigolion sy'n cael eu stopio a'u chwilio.

Cynhaliwyd dau ymarfer 'cyd-deithio' yn ystod y flwyddyn gyda'r arsylwyr yn rhoi adborth i'r llu ar yr hyn a welsant er mwyn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ystod y cyfarfyddiadau hyn. Roeddent o'r farn ei fod yn arf gwerthfawr i'r cyhoedd gael gwell dealltwriaeth o'r broses a bydd y llu'n parhau â'r cynllun ac yn archwilio ei ddefnydd a'i werth wrth ddatrys cwynion cysylltiedig. Mae pob cwyn y mae Heddlu Gwent yn ei derbyn am stopio a chwilio yn rhoi'r broses 'Sbardun Cymunedol Stopio a Chwilio' ar waith ('Best Use of Stop and Search Scheme'), a rhoddir gwybod amdani i Swyddfa'r Prif Gwnstabl ac i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf cofnodwyd 8 cwyn o ganlyniad uniongyrchol i stopio a chwilio ac yr ydym yn parhau i fonitro hyn.



Hyder y Cyhoedd


Ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at Ragfyr 2014, parhaodd hyder y cyhoedd yn Heddlu Gwent i ddangos tuedd ar i fyny. Caiff hyn ei fonitro drwy gyfrwng Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr a'n harolwg bodlonrwydd mewnol ni ein hunain.

Thema	Cyfartaledd Cenedlaethol CSEW 12 mis i Rhag 14	Gwent 12 mis i Rhag 14
Yr heddlu yn ymdrin â blaenoriaethau'r gymuned	61.9%	59.8% (cynnydd o 3.9% o'i gymharu â Rhag 13)
Yr heddlu yn gwneud gwaith da	62.1%	52.9% (gostyngiad o 0.9% o'i gymharu â Rhag 13)
Yn eich trin â pharch	86.5%	83.9% (cynnydd o 0.1% o'i gymharu â Rhag 13)
Yn trin pawb yn deg	65.7%	62.1% (cynnydd o 4.1% o'i gymharu â Rhag 2013)

Bodlonrwydd Dioddefwyr

Rwyf wedi parhau i fonitro perfformiad Heddlu Gwent o ran bodlonrwydd dioddefwyr. Mae bodlonrwydd dioddefwyr trosedd yng Ngwent wedi aros yr un fath; fodd bynnag, rydym wedi gweld gostyngiad ym modlonrwydd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda phobl yn rhoi gwybod mai 'Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf' yw'r broblem fwyaf o hyd.

Dyna pam, ym mis Tachwedd 2014, y bu i mi gefnogi a chymeradwyo lansio safon gwasanaeth a llyfryn dioddefwyr CARES Heddlu Gwent. Drwy ddarparu'r adnoddau cywir, nod CARES yw cynorthwyo swyddogion i ganfod pa lefel o gefnogaeth y mae dioddefwyr troseddau ei hangen er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn y dylem fod yn ei wneud i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.



Gwelwyd gwelliant cyson yng nghofnodi CARES o fis Tachwedd a bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos drwy ein Harolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr a'm cynrychiolaeth ar Fwrdd Gwasanaeth sy'n Gweithio Heddlu Gwent. Fe wnaeth y Tîm Prif Swyddogion barhau i gysylltu â 5 o ddioddefwyr troseddau bob mis er mwyn sicrhau eu bod wedi cael gwasanaeth addas, gydag Sarsiant yn cysylltu â phob dioddefwr trosedd. Fe wnaeth hyn sicrhau bod un o'r beirniadaethau mwyaf a wynebodd y llu, sef peidio â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl, yn parhau i wella.

Mae gwella'r modd y mae gwasanaethau dioddefwyr yn cael eu darparu yng Ngwent yn flaenoriaeth allweddol ac mae wrth graidd yr hyn y mae'r cyhoedd ei eisiau a'r hyn y maent yn ei haeddu. Os gallwn gael yr ymwneud â dioddefwyr yn iawn, bydd yn arwain at fwy o gynnydd yn hyder y cyhoedd yn Heddlu Gwent.

Rhoi Dioddefwyr wrth Graidd Popeth yr ydym yn ei Wneud

Mae'r Siarter Dioddefwyr wedi cael ei datblygu a'i hyrwyddo er mwyn dangos fy ymrwymiad i sbarduno a gwella gwasanaethau a bodlonrwydd dioddefwyr yng Ngwent, ac mae hyn yn cael cefnogaeth lawn y Tîm Prif Swyddogion yn Heddlu Gwent.

Ym mis Hydref 2014 cafwyd un o'r newidiadau mwyaf i'r modd yr ydym yn darparu cefnogaeth i ddioddefwyr. Mae nawdd yr arferid ei ddarparu yn uniongyrchol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Cymorth i Ddioddefwyr bellach yn cael ei ddosbarthu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau er mwyn comisiynu gwell gwasanaethau a gwasanaethau ychwanegol i ddioddefwyr. Dechreuodd y paratodau ar gyfer y newid hwn yn Awst 2014 gyda'r penderfyniad i greu Connect Gwent – canolfan amlasiantaeth newydd ar gyfer holl ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol Gwent.



Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ymgysylltu â phartneriaid er mwyn sefydlu'r model newydd, a aeth yn fyw yn Ebrill 2015 ac a gafodd ei lansio'n swyddogol ar ddiwedd Mai 2015. Dyfarnwyd contract i Cymorth i Ddiodefwyr i ddarparu gwasanaethau brysbennu am dair blynedd. Erbyn 31 Mawrth 2015 roeddem wedi cael ymrwymadau gan Llwybrau Newydd, Embrace (Plant yn Dioddef Troseddau), Umbrella Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a fydd yn gweithio o adeilad y ganolfan. Mae tîm arbennig ar gyfer yr Arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr yn cael ei ddarparu gan Heddlu Gwent ac mae hefyd wedi'i leoli yn y ganolfan wasanaeth.

Bydd fy Siarter Dioddefwyr yn sefyll uwchlaw'r fframwaith perfformiad ar gyfer Connect Gwent â'r nod o'i sefydlu ymhellach o fewn y trefniadau gweithio amlasiantaeth ehangach.

Model Gwasanaeth Heddlu Newydd i Went

Ar ddechrau'r flwyddyn fe wnaeth y Prif Gwnstabl a minnau drafod yr angen i ailedrych ar y modd yr oedd pobl Gwent yn cael eu heddlua. Cafodd y pryderon a godais ynghylch y datgysylltiad rhwng yr amrywiol dimau a'r cymunedau yr oeddent i fod i'w gwasanaethu eu derbyn a datblygwyd model heddlua newydd yr oeddwn yn ei gefnogi. Rhoddwyd hwn ar waith ar 1 Ebrill 2015.

Mae'r symudiad i fodel gweithredu newydd ar gyfer y llu yn cyflwyno cyfnod newydd yn y modd y mae Heddlu Gwent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a sut maent yn cynnal eu busnes o ddydd i ddydd. Nid dim ond arbed arian yw diben y newidiadau; eu nod yw cynnig y gwasanaeth gorau i'r cyhoedd o fewn yr adnodd ariannol a staffio sydd ganddynt ar gael a sicrhau eu bod yn addas i'r diben er mwyn cyflawni fy mlaenoriaethau.

Atebolrwydd

Rwy'n parhau i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol am berfformiad y llu er mwyn sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol i Went yn unol â'i ymrwymiad i ddarparu 'gwasanaeth sy'n gweithio'. Yn ogystal â chael adroddiadau rheolaidd gan y llu ar berfformiad, rwy'n cynnal cyfarfodydd un-i-un wythnosol gyda'r Prif Gwnstabl i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi yng Ngwent.

Drwy gyfrwng fy Mwrdd Strategaeth a Pherfformiad, a gyfarfu 11 o weithiau yn 2014/15, rwy'n monitro perfformiad Heddlu Gwent a sut mae'n darparu ei wasanaeth yn effeithiol yn erbyn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Er mwyn cefnogi effeithiolrwydd y cyfarfodydd hyn a darparu gwell tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus, rwyf wedi adolygu'r gofynion monitro a phenderfynu lleihau amllder cyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad ar gyfer 2015/16. Mae gennyf gyfrifoldeb i fonitro cwynion cyhoeddus a wneir yn erbyn swyddogion Heddlu Gwent y mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi ymdrin â hwy. Yn ystod y flwyddyn, darparodd fy swyddfa ymatebion i, a chydlynu, 209 o geisiadau ansawdd gwasanaeth a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd, cynnydd bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (derbyniwyd 200 yn 2013/14). Rydym yn ymgysylltu â'r llu er mwyn gallu darparu atebion addas i'r materion hyn. Yn ogystal, mae gofyn i mi ymdrin â chwynion a wnaed yn erbyn y Prif Gwnstabl.

Mae [Panel Heddlu a Throseddu Gwent](http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/panel-yr-heddlu-a-throseddu/)¹ yn archwilio fy ngweithredoedd a'm penderfyniadau fel Comisiynydd. Mae'r Panel yn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd allu asesu a ydynt yn fy nghadw'n atebol ac yn darparu cefnogaeth a her pan fyddant yn gwneud eu swyddogaethau. Yn ystod 2014/15, bu imi gwrdd â'r Panel bum gwaith i drafod materion megis cyllid, y gwaith y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei wneud i gefnogi fy nyletswyddau, a sut rwyf yn cadw'r Prif Gwnstabl yn atebol.

Rwyf hefyd yn destun gweithdrefnau archwilio a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr mewnlol sy'n archwilio sut rwyf yn gweithredu fy mhrosesau ariannol, llywodraethiant a phrosesau eraill. Mae Heddlu Gwent yn cael eu harolygu yn rheolaidd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC). Mae'r Arolygiaeth yn annibynnol ar y Comisiynydd, y llu a Llywodraethau y DU a Chymru, ac mae'n asesu gwaith heddluoedd mewn gwahanol feysydd busnes, gan gynnwys heddlua yn y gymdogaeth, troseddau difrifol a threfnedig, ymddygiad gwrthgymdeithasol a mynd i'r afael â

¹ <http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/panel-yr-heddlu-a-throseddu/>

bygythiadau o bwys megis terfysgaeth. Mae'r Arolygiaeth, ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, hefyd yn mynd ati i fonitro perfformiad y lluoedd mewn perthynas â'u cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol yn sgil y gostyngiadau grant sylweddol a gyhoeddwyd yn yr arolygon cynhwysfawr o wariant.

Cefnogi Gwirfoddolwyr



Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol i gefnogi y cynlluniau Ymweliadau Dalfa Annibynnol a Lles Anifeiliaid yng Ngwent. Mae'r cynlluniau yn cael eu cynnal gan Swyddfa y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ac mae fy staff yn gweithio gyda'n gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae eu hadborth yn bwysig i'm helpu i gadw'r Prif Gwnstabl yn atebol am gyfleusterau dalfa a lles y rhai sy'n cael eu dal, yn ogystal â lles cŵn yr heddlu yng Ngwent.


ATAL A LLEIHAU TROSEDDU A MYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Byddaf yn parhau i weithio'n gynhyrchol gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn atal a lleihau troseddau ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion ehangach yn ymwneud â diogelwch cymunedol, ac ar yr un pryd yn cefnogi unigolion a'u cymunedau pan fyddant yn ddioddefwyr. Rwy'n cael fy nghynrychioli ar y pum Bwrdd Gwasanaethau Lleol o fewn ardal y lluoedd ac mae fy swyddogion yn gysylltiedig â'r amrywiol rwydweithiau er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau yr holl bartneriaid yn cael eu hystyried o fewn y broses gynllunio a chyflawni.


Yn sgil ffocws parhaus ar gofnodi troseddau yn gywir (moesegol) dros y 12 mis diwethaf, gwelwyd cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd er y cafwyd tuedd tuag i lawr mewn troseddau yn gyffredinol yng Ngwent. Mae cydymffurfiaeth â Chyfraddau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol wedi gwella yn y flwyddyn ddiwethaf o 75% i 88%, sy'n hynod o gadarnhaol. Roedd Gwent wedi gweld cynnydd o 3.6% mewn troseddau yn ystod 2014/15, a oedd yn llai na'r hyn a ragwelwyd, ac arhosodd yn safle 30 o blith y 43 o luoedd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer nifer y troseddau fesul 1,000 o bobl. Fodd bynnag, er mwyn lleihau troseddau yn ein cymunedau a chefnogi'r flaenoriaeth hon, mae angen parhau i ganolbwyntio ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rwy'n parhau i fonitro data troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw'r Prif Gwnstabl yn atebol am broses gofnodi effeithiol.

Pob Trosedd



Digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol



Mae gwaith craffu manylach ar feysydd perfformiad y llu yn cael ei wneud fel y bo gofyn drwy samplu ar hap gan staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac, os yw'n briodol, gyda'n gwirfoddolwyr yn y gymuned.

Mwy o Heddlu ar y Bît

Yn sgil gwaith parhaus i atal a lleihau troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwelwyd mwy o ffocws ar ddatrys y materion y deir yn ymwybodol ohonynt yn sgil ymgysylltu â'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwell presenoldeb gan yr heddlu mewn cymunedau ac adleoli 15 heddwys a 5 sarsiant o Unedau Dalfa yn ôl i'r gymuned yn y flwyddyn ddiwethaf. Credaf fod y penderfyniad hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder y cyhoedd ar draws ein cymunedau.



Atal Camddefnyddio Sylweddau

Rwy'n parhau i ariannu Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent er mwyn cefnogi pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn sgil camddefnyddio sylweddau. Nod y rhaglen yw lleihau niwed pellach sy'n digwydd yn sgil aildroseddu a pharhau i gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys defnyddio sylweddau seicoweithredol. Cafwyd 592 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod o Ebrill 2014 i Fawrth 2015 gyda chyfanswm o 83 o bobl yn gorffen eu triniaeth yn llwyddiannus. O'r carchar y daeth y rhan fwyaf o atgyfeiriadau (50%), ac yna gan Heddlu Gwent (21%).

Ansawdd – A Oes Unrhyw Un yn Well eu Byd?

Wedi Cwblhau	83	Canran y rhai a gwblhaodd o'r holl achosion a gafodd eu cau	27%
- Dim Cyffuriau/Troseddu	46	- Dim Cyffuriau/Troseddu	15%
- Dim Troseddu yn Unig	2	- Dim Troseddu yn Unig	0.7%
- Dim Cyffuriau yn Unig	35	- Dim Cyffuriau yn Unig	12%

Ym mis Mawrth, fe wnaethom gefnogi'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau i lansio ystod o [adnoddau ar-lein](#)² newydd i gefnogi camddefnyddwyr sylweddau sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud hefyd gyda phartneriaid ar Fwrdd Cynllunio Ardal Gwent i gyflwyno'r gwasanaeth ymyriadau cyffuriau, alcohol a theulu integredig cyntaf erioed ar gyfer Gwent gyfan i unigolion, gan gynnwys troseddwr a chymunedau y mae camddefnyddio sylweddau wedi effeithio arnynt. Dyma'r tro cyntaf yng Nghymru y mae un contract wedi'i dendro sy'n cysylltu darparwyr cyfiawnder troseddol â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Bydd y darparwr newydd yn gweithio'n agos gyda Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent i ddarparu gwasanaethau cyffuriau ac alcohol pwrpasol i oedolion ar draws Gwent.

² <http://www.gwentdip.org.uk/index.php?id=1&L=1>



Ym mis Chwefror 2015 dechreuais ar fy ngwaith fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol lleol er mwyn datblygu ymhellach fy ymrwymiad i wella prosesau cyfiawnder troseddol ar draws Gwent, gan gynnwys cefnogaeth bartneriaeth i ddioddefwyr. Mae gwaith yn parhau rhwng asiantaethau i wella ansawdd ffeiliau ar gyfer y llys ac mae'r perfformiad a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn dystiolaeth o hyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld datblygiad yn yr ymwneud â phrosesau Rheoli Troseddwy'r Integredig (IOM) ac rwyf yn cael fy nghynrychioli ar fyrddau Rheoli Troseddwy'r Integredig Gwent a Chymru. Ers 2013 cafwyd cynnydd o 330% yn y personau sy'n cael eu rheoli dan ymbarél Rheoli Troseddwy'r Integredig, gyda ffigwr o 1,940 ar gyfer Cymru gyfan, a gostyngiad o 34% yn y gyfradd aildroseddu ymhlith y garfan ar draws Cymru. Adlewyrchir y duedd hon mewn modd tebyg yng Ngwent.

Ar ran cyd-weithwyr sy'n Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru, llwyddais i sicrhau nawdd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynllun Brysbennu i Fenywod ar gyfer Cymru gyfan, i helpu i ddargyfeirio menywod sydd wedi cael eu harestio oddi wrth droseddoldeb a darparu dull 'adferol' o'u hadsefydlu. Hyd yma, mae 170 o fenywod wedi cael eu dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol, gyda chyfradd aildroseddu is o ddim ond 5%. Cafodd y 'Cynllun Dargyfeirio' Braenaru i Fenywod ei lansio'n swyddogol ym mis Mawrth 2015 a dewiswyd Casnewydd fel un o'r safleoedd peilot estynedig. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd y cynllun drwy'r Bwrdd ac edrychaf ymlaen at weld rhagor o lwyddiannau yn y dyfodol.

Safer Gwent

Rwyf wedi datblygu fy ymrwymiad i ddiogelwch cymunedol strategol drwy sefydlu bwrdd amlasiantaeth newydd o'r enw Safer Gwent. Bydd Safer Gwent yn cydlyn mentrau a gweithgareddau ar y cyd ledled y rhanbarth ond ni fydd yn disodli'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Statudol sy'n bodoli ac sy'n gweithredu drwy bob un o Fyrddau Gwasanaethau Lleol y pum awdurdod lleol.

Mae Safer Gwent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector gwirfoddol, gwasanaethau troseddau ieuenctid a'r gwasanaethau prawf ac adsefydlu. Nod y grŵp yw datblygu dull o ymgysylltu â'r gymuned ar y cyd i wellagweithio mewn partneriaeth, â'r bwriad o sicrhau gwell canlyniadau o ran ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, atal aildroseddu a chefnogi dioddefwyr. Er mai dyddiau cynnar yw hi, mae'r Bwrdd eisoes wedi datblygu rhaglen waith gynhwysfawr i gefnogi hyn ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r partneriaid hyn i ddatblygu mentrau sy'n cefnogi cymunedau mwy diogel a hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Community Remedy

Er mwyn paratoi ar gyfer lansio'r Community Remedy, ym mis Gorffennaf 2014 gwahoddwyd y cyhoedd i helpu i ddewis yr opsiynau sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lefel isel i gael mwy o lais ynghylch sut yr ymdrinnir â throseddwy'r y tu allan i'r llys. Bu i 835 o bobl

lenwi'r arolwg a defnyddiwyd eu hymatebion i lywio'r dull sydd bellach wedi cael ei fabwysiadu gan Heddlu Gwent a'n partneriaid eraill. Mae'r mesurau wedi bod yn cael eu defnyddio ers mis Hydref 2014.

Y pedwar dewis y bu i mi a'r Prif Gwnstabl gytuno arnynt oedd:

1. Gwneud iawn am niwed a achoswyd, e.e. trwsio niwed i eiddo, glanhau graffiti, dychwelyd eiddo a ddygwyd;
2. Talu i'r niwed a achoswyd gael ei drwsio, neu i'r eiddo a ddygwyd gael ei amnewid;
3. Ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig; neu
4. Ddull adferol sy'n caniatáu i ddioddefwyr a throseddwr gyflwyno eu safbwyntiau i'w gilydd heb gwrdd wyneb yn wyneb.

Mae'r mesurau newydd yn golygu bod gan yr heddlu bellach ffyrdd cyflymach a mwy hyblyg o ymdrin â throsedd ac anhrefn ar lefel isel. Mae'r dioddefwyr yn cael cyfiawnder yn gyflym ac mae'n rhaid i'r troseddwr wynebu canlyniadau ei weithredoedd, a dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar fodlonrwydd dioddefwyr yn y dyfodol. Rhwng Hydref 2014 a Mawrth 2015, defnyddiwyd 68 o atebion cymunedol ar draws Gwent ar gyfer amrywiaeth o droseddau.

Mae'r Sbardun Cymunedol yn rhoi cyfle i'r un dioddefwyr ofyn am adolygiad o weithredoedd asiantaethau pan fyddant yn anfodlon â'r modd yr ymdriniwyd â'u problemau. Mae gennyf rôl i ddarparu llwybr i ddioddefwyr anfodlon gwestiynu sut y cynhaliwyd eu hadolygiad Sbardun Cymunedol. Ni chefais unrhyw geisiadau am adolygiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Mynd i'r Afael â Throseddu Gwledig



Llynedd, roeddwn yn un o 28 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar draws Cymru a Lloegr a ymrwymodd i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Troseddu Gwledig Cenedlaethol, a'i gefnogi. Nod y fenter hon yw gweithredu fel melin drafod gydweithredol, i ymchwilio i ffyrdd o leihau troseddu gwledig, a'u cyflwyno. Darparodd y Swyddfa Gartref fuddsoddiad cychwynnol o £39,200 ac ymrwymodd pob Comisiynydd i roi £1,000 y flwyddyn am y ddwy flynedd gyntaf yn rhan o ymrwymadau nawdd lleol i'r prosiect.

Mae Cynllun Gwarchod Ffermydd Heddlu Gwent, sydd wedi ennill sawl gwobr, yn parhau i gael effaith fawr, ac yr wyf yn ei gefnogi.

Tynnodd y Rhwydwaith Troseddu Gwledig Cenedlaethol sylw ato fel model o'r arfer gorau, a diolch i waith caled y tîm Gwarchod Ffermydd mae troseddau yn ymwneud â ffermydd yng Ngwent wedi gostwng 27%. Mae hyn wedi arwain at fwy o hyder a bodlonrwydd â Heddlu Gwent o fewn ein cymunedau gwledig. Mae aelodaeth y cynllun Gwarchod Ffermydd ar OWL (Online Watch Link) wedi codi o 300 i dros 1,000 ac mae'r gudd-wybodaeth a gafwyd wedi arwain at arestio cyfres o droseddwr. Defnyddiwyd Cydlynnydd Gwarchod Ffermydd fel cynghorydd tactegol yn ystod Uwchgynhadledd NATO ym Medi 2014 a bu ei gudd-wybodaeth o gymorth yn yr achos yn erbyn ffermwr a gafodd ei garcharu am 4 blynedd yn sgil caethwasiaeth ar fferm yn 2014. Mae'r cynllun Gwarchod Ffermydd wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol, gan ennill gwobrau megis gwobr Ymladdwyr Troseddu Gwledig NFU Mutual yn 2014.

Buddsoddi yn ein Cymunedau

Rwyf wrth fy modd gweld yr effeithiau cadarnhaol y mae'r nawdd Partneriaeth 2013/14 wedi'i gael

ar gymunedau lleol ac unigolion sy'n defnyddio'r prosiectau, gan gynnwys gwell ymwneud â phobl ifanc, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn, sydd wedi arwain at ostyngiad canfyddedig mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hyn.

Gan adeiladu ar sail llwyddiant y blynyddoedd blaenorol, yn sgil fy Nghronfa Bartneriaeth 2014/15 gwelwyd dros 40 o brosiectau ar draws Gwent yn cael cyfran o dros £150,000. Yn dilyn cyfnod o gyhoeddusrwydd parhaus, cyflwynwyd dros 500 o geisiadau o'i gymharu â chyfanswm o 50 o brosiectau a wnaeth gais am nawdd yn 2013. Roedd y gystadleuaeth yn hynod o gryf ac roedd yn agoriad llygad gweld faint o brosiectau sydd wirioneddol angen yr arian hwn yng Ngwent. Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y gall y prosiectau hyn ei chwarae i ategu gwaith Heddlu Gwent a phartneriaid lleol eraill yn y gymuned.

Y Dull Adferol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd yn bleser gennyf ddarparu parhad yn y gefnogaeth nawdd i'r Prosiect Dulliau Adferol. Roedd y prosiect, a ddeilliodd o Ysgol Gyfun Trefynwy, eisoes wedi bod yn fodel llwyddiannus, gyda gwelliannau sylweddol yn ymddygiad disgyblion a gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau ysgol (atal dros dro) a welwyd o 148 o ddisgyblion yn 2013 i 100 yn 2014.



Mae'r nawdd yr wyf wedi'i ddarparu dros ddwy flynedd wedi caniatáu ar gyfer nifer o gyfleoedd hyfforddiant hwyluso gan gynnwys yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol ar draws Sir Fynwy. Mae'r defnydd o dulliau adferol wedi arwain at gyfanswm cwmp o 81% yn nifer yr atgyfeiriadau at Swyddogion Lleihau Troseddau ac Anhrefn (CADROs) ar gyfer 2013 hyd 2015 yn Sir Fynwy. Ym mis Chwefror 2015, bu aelodau o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, gan gynnwys fi, cyd-weithwyr o Heddlu Gwent a sawl corff partner ar draws Gwent yn bresennol ar raglen hyfforddi Arweinyddiaeth Dulliau Adferol. Mae gwaith yn parhau yn awr i edrych ar sut y gellir cymhwyso hyn i Gynllun Gweithredu Adferol y Llu ac mae fy staff yn ymwneud â'r prosesau hyn.

Wrth barhau i weithio gyda phartneriaid i'w hannog i gymryd rhan yn y rhaglen, roeddwn hefyd yn falch o gefnogi Carchar Prescoed i sefydlu prosiect Cyfiawnder Adferol a Dulliau Adferol. Nod y prosiect yw rhoi cyfle i ddioddefwyr gwrdd â throseddau i egluro gwir effaith troseddau ac mae hefyd yn helpu troseddau i roi cyfrif o'u gweithredoedd a galluogi iddynt hwythau gymryd cyfrifoldeb am eu troseddau a gwneud iawn amdanynt

Positive Futures

Rwy'n parhau i hyrwyddo mentrau sy'n darparu cynhwysiant a difyrrwch i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu troseddoli a dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Yn 2014/15 fe gefnogais fudiadau eraill ar draws Gwent i ddod yn rhan o'r rhaglen Positive Futures er mwyn ymestyn effeithiau cadarnhaol y fenter i ddargyfeirio ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i gymunedau eraill.

Mae Positive Futures wedi bodoli ers 2002 a dros y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi cefnogi'r prosiect gyda £280,000 o gyllid craidd o'm Cronfa Diogelwch Cymunedol. Ceir cefnogaeth ariannol ychwanegol gan Chwaraeon Cymru, addysg (ysgolion uwchradd) ac addysg amgen ac unedau, awdurdodau lleol (gan gynnwys Gwasanaethau Troseddau Ieuentid) a Gofalwyr Ifanc Barnardo's. Ceir hefyd o bartneriaid nad ydynt yn noddi ond sy'n gweithio mewn partneriaeth agos â'r fenter.

Mae'r prosiect yn defnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i helpu i ysbrydoli pobl ifanc, rhai ohonynt mewn perygl o gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n darparu mentora un-i-un ar gyfer pobl ifanc a rhaglenni cyswllt i'w difyrru, ynghyd â hyfforddiant a chyfleoedd am ddatblygiad personol a all arwain at gymwysterau neu gyflogaeth.

Yn 2014-15 bu ymwneud â'r prosiect ledled Gwent, gydag ychydig yn llai na 2,500 o bobl ifanc, cynnydd o tua 50 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gweithgarwch hwn wedi gweld amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr unigolion dan sylw, gan gynnwys ennill nifer o gymwysterau.

Yn ystod 2014-15 bu i bob un o'r awdurdodau lleol sefydlu prosiectau Positive Futures. Mae rhai wedi cael eu datblygu yn fwy nag eraill ac maent eisoes wedi dechrau cynhyrchu incwm. Gobeithiaf yn ddiffuant y bydd prosiectau cysylltiedig yn cael eu tywys a'u harwain gan nodau ac amcanion Diogelwch Cymunedol yn ystod 2015-16.

Ffigyrau Defnyddio a Chyswllt ar gyfer Positive Futures Casnewydd

2013 / 14			2014 / 15		
Dynion	Menywod	Gwirfoddolwyr	Dynion	Menywod	Gwirfoddolwyr
1186	439	11	1209	364	35
Cyfanswm : 1636			Cyfanswm : 2460		

Wings to Fly

Rwyf hefyd wedi cefnogi gwaith atal troseddu sydd wedi'i dargedu. Yn rhan o hyn darperais flwyddyn arall o nawdd i'r fenter 'Wings to Fly' sy'n tynnu sylw at beryglon a chanlyniadau trasig camddefnyddio sylweddau, ac yn mynd i'r afael â hwy. Bu i tua 2000 o ddisgyblion o 50 ysgol ar draws Caerffili a Blaenau Gwent gymryd rhan yn ystod 2014/15 ac mae'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys disgyblion yn Nhorfaen. Mae'r rhaglen bellach wedi bod yn rhedeg ers 20 mlynedd, a fi sy'n darparu'r unig gefnogaeth iddo.

Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd a chaiff y rhai sy'n cymryd rhan eu hannog i roi adborth ar eu profiad.

Yn ôl disgyblion sydd wedi ei weld:

"Fe gymerais i 'Wings to Fly' o ddifri oherwydd roedd yn real ac yn ddramatig."

"Fe ddysgais fwy am gyffuriau nag yr oeddwn yn ei wybod yn barod ac ynghylch pa mor beryglus ydynt."

"Mae'n well yn y theatr achos mae'n actio go iawn ac mae cyfle i ofyn cwestiynau wedyn."

Yn ôl y staff sydd wedi ei weld:

"Gall y disgyblion uniaethu â'r cymeriadau yn y ddrama gan mai dim ond ychydig flynyddoedd yn hŷn na hwy ydynt. Bydd y plant yn cychwyn ysgol uwchradd yn fuan a gall fod mwy o bwysau amynt gan eu cyfoedion."

"Rwyf bob amser yn mwynhau'r ddrama ac yn canfod ei bod yn llesol iawn i ddysgu disgyblion am ymwybyddiaeth o gyffuriau."

Swyddfa Partneriaeth Gwent

Fel aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, rwy'n monitro cynnydd model Swyddfa Partneriaeth Gwent a sefydlwyd rhwng Heddlu Gwent a'r Gwasanaethau Troseddolwyr Ifanc Lleol. Nod y Swyddfa yw annog gwneud penderfyniadau ar y cyd, canlyniadau effeithiol ac ymyriadau cyfiawnder adferol i bobl ifanc. Rhwng Ebrill 2013 a Medi 2014, arhosodd y cyfraddau aildroseddu ar draws Gwent yn isel. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd cyfanswm o 956 o bobl ifanc eu cyfeirio at y Gwasanaethau Troseddolwyr Ifanc ar draws Gwent; cafodd 207 o unigolion eu cofnodi fel rhai a aildroseddodd yn ystod cyfnod o 18 mis wedi'r ymyriad neu'r penderfyniad a ddarparwyd.

Mae dioddefwyr sydd wedi cymryd rhan mewn ymyriadau cyfiawnder adferol yng Ngwent yn gyson yn rhoi cyfraddau bodlonrwydd uchel; rhwng Medi a Mawrth, datganodd dros 98% o unigolion fu'n cymryd rhan eu bodlonrwydd â'r broses. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r llw, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i integreiddio dull y Swyddfa i broses cyfiawnder adferol wedi'i symleiddio ar draws Gwent, a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd y rhaglen.

Seiberdroseddu

Mae seiberdroseddu, sy'n cael ei gydnabod fel mater o bwys cenedlaethol, yn her gynyddol i gymdeithas ac mae gwaith gyda phartneriaid yn parhau yng Ngwent i ymdrin â'r mater hwn. Rwy'n parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn ac ymateb y llu iddo drwy fod yn bresennol yn eu Bwrdd Llywodraethu Gofyniad Heddlu Strategol sydd wedi cynnwys goruchwyllo a chyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Seiberdroseddu Heddlu Gwent yn 2014/15. Er mwyn llywio a chefnogi rhagor o graffu a goruchwyllo yn y maes hwn, rwy'n cael fy nghynrychioli yng nghyfarfodydd y Swyddfa Gartref i sicrhau dealltwriaeth o ofynion polisi cenedlaethol. Er mwyn sicrhau cynnydd wrth ymdrin â'r mater hwn, rwyf wedi cynnwys ffocws penodol ar Seiberdroseddu yn niweddariad y Blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2015/16 a byddaf yn monitro canlyniadau yn ystod y flwyddyn honno.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r llu i gwrdd ag anghenion ein cymunedau a dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i godi bodlonrwydd y cyhoedd â Heddlu Gwent, a byddaf yn monitro cynnydd trwy gydol y flwyddyn sydd i ddod.

DIOGELU POBL RHAG NIWED DIFRIFOL

Er mwyn cefnogi'r flaenoriaeth hon i ddiogelu pobl rhag niwed difrifol, rwy'n cynnal monitro rheolaidd ar yr holl wasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd a gyflawnir gan Heddlu Gwent. Mae hyn yn rhan integral o'm Fframwaith Monitro Perfformiad ac rwyf wedi gwneud trefniadau i gael adroddiadau cyhoeddus chwarterol ar:

- Ddiogelu Plant a'r Trefniadau Amlasiantaethol cysylltiedig ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA);
- Trais a Digwyddiadau Rhywiol Difrifol;
- Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed;
- Masnachu Pobl a Cham-drin Domestig; a
- Thrais ar sail Anrhydedd (HBV).

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud camau breision o ran troseddau cysylltiedig yn y categorïau hyn, gan gynnwys llwyddiannau megis gostyngiadau sylweddol mewn 'Trais Mwyaf Difrifol yn erbyn y Person' yn y cyfnod Tachwedd 2014 hyd Fawrth 2015. Arhosodd adroddiadau 'Trais Domestig' islaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, o fis Ionawr 2015 gwelsom gynnydd yn yr adroddiadau o drais ac ymosodiadau rhywiol, er y dylid nodi bod 40% o'r rhain yn dal i fod yn hanesyddol eu natur.

Rwyf hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac adroddiadau gan Bennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd Heddlu Gwent ar weithgarwch a gwaith a wnaed gan grwpiau partneriaeth strategol a gweithredol cysylltiedig sy'n darparu gwasanaethau ym mhob un o'r meysydd hyn.

Drwy weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd cafwyd tuedd gyffredinol o welliant ar gyfer y flwyddyn o ran cam-drin domestig a phle euog yn y gwrandawriad cyntaf yn llys yr ynadon, a hefyd y cyfraddau pleon euog yn llys y Goron a llys yr ynadon, sy'n feysydd allweddol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Rwy'n gysylltiedig â gwaith Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB) trwy gyfrwng swyddog arweiniol y llu a'r llynedd rhoddais drosolwg iddynt o'r modd y mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni fy swyddogaethau diogelu. Mae fy staff wedi cael eu briffio ar y cyfrifoldebau sydd wedi'u gosod arnaf fel Comisiynydd, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd â Phennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd Heddlu Gwent i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar faterion cysylltiedig.

Byddaf yn parhau i fonitro perfformiad y llu a gweithio gyda'r partneriaid hyn i leihau lefel y troseddau a gyflawnir yng Ngwent.

Cydweithio

Rwy'n parhau i weithio gyda fy nghyd-Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'u Prif Gwnstabiliaid yng Nghymru ar faterion rhanbarthol, gan gynnwys cefnogi unigolion bregus a chymunedau sydd mewn perygl o niwed difrifol. Rhoddir ystyriaeth bob amser i ofynion heddlu cenedlaethol wrth gynllunio blaenoriaethau lleol a chefnogi gweithgareddau.

Rwy'n cael fy nghynrychioli ar Fwrdd Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cydweithrediaeth Iechyd De Cymru sy'n darparu rheolaeth a chraffu ar y gwasanaethau i ddioddefwyr trais ac ymosodiadau rhywiol ledled ardaloedd heddlua Gwent, De Cymru a Dyfed-Powys. Cefais hefyd fy nghynrychioli ar yr is-grŵp gorchwyl a gorffen 'Cyllid' oedd yn ceisio mynd i'r afael â risgiau presennol a materion cynaliadwyedd a nodwyd gan y Bwrdd. Lluniwyd rhestr fer o nifer o opsiynau yn ymwneud â dyfodol gwasanaethau a bydd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn cael ei archwilio yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect sydd i ddod yn ystod 2015/16.

Rwy'n gweithio'n agos gyda Llwybrau Newydd, y corff a gomisiynwyd i gefnogi dioddefwyr ymosodiadau rhywiol drwy ein Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) leol. Yn rhan o hyn, darperais nawdd i asesu anghenion unigolion sy'n aros am wasanaethau cwnsela. Fe wnaeth y gwaith a wnaed helpu i ailflaenoriaethu a lleihau'r rhestr aros o gleientiaid ac mae'r broses bellach wedi cael ei hymgorffori i weithdrefnau arferol y Ganolfan. Yn ogystal, fe wnaethom groesawu Llwybrau Newydd fel un o'n prif bartneriaid yng nghanolfan dioddefwyr Connect Gwent er mwyn sicrhau y gellir asesu anghenion unrhyw unigolion y mae ymosodiadau rhywiol yn effeithio amynt yn llawn, a bodloni'r anghenion hynny, cyn gynted â phosibl.

Rwy'n parhau i weithio gyda'r llu a phartneriaid i gefnogi gwaith ar feysydd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Bwrdd Cam-drin Domestig a Thrais Difrifol De-ddwyrain Cymru; Grŵp Cydlyn Masnachu Pobl Gwent; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Age Cymru; Wales Against Scams; Prevent a'r Bartneriaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Gwella Darpariaeth Iechyd Meddwl yng Ngwent

Cafwyd ffocws penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar safon y ddarpariaeth iechyd meddwl o fewn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Yn rhan o hyn, rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu a chyd-weithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y Concordat Iechyd Meddwl drafft i Gymru. Bydd hwn yn cael ei lansio yn ystod 2015.

Rwy'n aelod o Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Gwent gyfan, sy'n archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd yn y maes hwn. Ymhlith gweithgareddau eraill, mae'r Bwrdd yn y broses o ddatblygu cynllun gweithredu comisiynu rhanbarthol a fydd yn cychwyn yn ystod 2015.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Heddlu Gwent, gyda fy nghefnogaeth, wedi adolygu'r defnydd o unedau dalfa heddlu fel lleoedd diogel i unigolion a chanddynt faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl (dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983) ac mae ein trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ynghylch lleihau'r arfer hwn yn parhau. Dros y flwyddyn ddiwethaf cafwyd cynnydd o 9% yn nifer y daliadau adran 136 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (231 i 251). Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn nifer yr unigolion a drosglwyddwyd i lefydd diogel yn gysylltiedig ag iechyd a'r rhai a dderbyniodd ryw fath o ddilyniant iechyd (12%) gyda gostyngiad o 13% yn nifer y rhai oedd yn aros yn nalfar heddlu, gan awgrymu bod y dal yn addas yn y lle cyntaf.

Peilot Brysbennu Stryd

Cafodd Peilot Brysbennu Stryd Iechyd Meddwl ei dreialu yng Ngwent yn ystod Ionawr 2015 yn rhan o brosiect ar gyfer Cymru gyfan. Mynychwyd 15 o ddigwyddiadau dros y ddau benwythnos, sydd wedi'u nodi drwy archwilio cofnodion digwyddiadau hanesyddol fel rhai o'r penwythnosau tawelaf yn y flwyddyn galendr. Cafodd dau glaf adran 136 posibl eu dargyfeirio o'r ddalfa a chafodd un ei dderbyn i Ysbyty Sant Cadog ar ôl argymhelliad ac atgyfeiriad. Rydym yn mynd ati i archwilio'r opsiynau ar gyfer y darpariaethau cefnogaeth mwyaf effeithlon a chost-effeithiol i unigolion a chanddynt anghenion iechyd meddwl gyda swyddog arweiniol iechyd meddwl y llu.

Hyfforddiant ar gyfer yr Heddlu

Er mwyn cefnogi ymateb y llu i faterion iechyd meddwl, cynhaliwyd pedair sesiwn hyfforddi iechyd meddwl i ringylliaid heddlu y llynedd, gyda chyfanswm o 50 o swyddogion yn bresennol ynddynt. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu adrannau 136 ac 135, gan ymdrin â phobl gyda phroblemau iechyd meddwl oedd ar goll, a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Cynllunnir hyfforddiant pellach ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gweithio gyda Phartneriaid Lleol

Rwyf hefyd wedi ymrwymo i gefnogi Cymunedau Cyfeillgar i Dementia o fewn Gwent, ac mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Lleol Blaenau Gwent a Heddlu Gwent i sefydlu dull partneriaeth o fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn enwedig yn gweithio gyda BGLI Blaenau Gwent wrth iddynt gychwyn prosiect peilot Cymuned Gyfeillgar i Dementia o fewn y Fwrdeistref Sirol. Yn rhan o'r hymrwymiad, bydd aelodau o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn cael hyfforddiant i ddod yn Gyfeillion Dementia yn ystod 2015.

Fel y crybwyllwyd yn gynharach, drwy fy Nghronfa Bartneriaeth rwyf wedi cefnogi nifer o brosiectau yn y flwyddyn ddiwethaf sy'n cefnogi darparu'r maes blaenoriaeth hwn. Mae rhai o'r prosiectau hynny yn cynnwys gweithio gyda throseddwr rhyw a'u teuluoedd, cefnogi gwasanaethau i blant sydd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig a chefnogi adsefydliad oedolion y mae dibyniaeth, troseddu a charcharu wedi effeithio arnynt. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn cefnogi darparu Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) drwy ddyrannu Cyllid Diogelwch Cymunedol i awdurdodau lleol yng Ngwent. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i roi Prosiect Braenaru Cam-drin Domestig Gwent ar waith. Mae'r cynllun peilot hwn yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac mae fy staff wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr y prosiect o safbwynt datblygiad canolfan Connect Gwent a'r Prosiect Braenaru ochr yn ochr. Er mwyn sicrhau bod y maes hwn o wasanaethau dioddefwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth, bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r prosiect wrth iddo ddatblygu. Bydd hyn hefyd yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu gyda chymorth Safer Gwent a phartneriaid.

Diogelwch ar y Ffyrdd

Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad o 38% yn nifer y marwolaethau ar y ffyrdd yn sgil canolbwytio ar ymgyrchoedd diogelwch yn ymwneud â:

- Defnyddio ffonau symudol wrth yrru
- Yfed / cymryd cyffuriau a gyrru
- Defnyddio gwregysau diogelwch
- Goryrru
- Gyrru diofal

Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 100% yn nifer marwolaethau plant (dan 16 oed) yn ystod y cyfnod hwn. Mae gwaith penodol i dargedu troseddwr cysylltiedig drwy gyfrwng gorfodaeth ac addysg yn cael ei wneud i ostwng cyfradd y rhai sy'n cael niwed ymhellach a gwella hyder a bodlonrwydd y cyhoedd. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd o ran cefnogi atal a lleihau troseddu.

GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O ADNODDAU A DARPARU GWERTH AM ARIAN

Rwy'n cael adroddiadau rheolaidd yn rhan o fonitro cyllideb i'm helpu i sicrhau bod pobl Gwent yn cael gwasanaeth heddlu sy'n rhoi gwerth am arian.

Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi:

- Cytuno ar ofyniad cyllideb ar gyfer Heddlu Gwent ar gyfer 2015/16 o £177,774,000 (cyllideb 2014/15 oedd £119,656,328)
- Gosod y cynnydd treth gyngor ar 3.99% (cynnydd 2014/15 oedd 2.66%)
- Cytuno ar gyllideb cyfalaf o £6,195,000
- Parhau i fonitro sut mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli pwysau cyllideb a chyni (drwy Staying Ahead 8, rhaglen gweddnewidiad y llu). O 2008/9 hyd heddiw, mae gwerth £32 miliwn o arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu sicrhau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom adroddiad 'Valuing the Police 4' gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth ei Mawrhydi, a gododd rai pryderon am allu'r llu i sicrhau'r arbedion yr oedd gofyn amdanynt erbyn diwedd yr arolwg cynhwysfawr hwn o wariant. Fodd bynnag, yr wyf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod yr argymhellion o'r asesiad yn cael eu gweithredu.

Faint mae Heddlu Gwent yn ei gostio?

Ar gyfer 2014/15, gwariwyd y canlynol ar wasanaethau heddlua refeniw yng Ngwent:

- Heddweision - £67.3 miliwn
- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu - £6.3 miliwn
- Staff Heddlu - £23.1 miliwn
- Digwyddiadau Mawr a Chymhellion Rhagweithiol – £0.3 miliwn
- Gwasanaethau a Gomisiynwyd a Dyfarniadau Grant - £2.7 miliwn
- Cyflenwadau a Gwasanaethau/Contractau a Ffioedd Cyfalaf - £15.5 miliwn
- Trafnidiaeth - £2.8 miliwn
- Ystadau - £5.1 miliwn
- Costau Eraill yn ymwneud â Gweithwyr, e.e. hyfforddiant, pensiynau anafiadau, ac ati - £2.5 miliwn

Yn ogystal, ar gyfer 2014/15 gwariwyd y canlynol ar gyfalaf yng Ngwent:

- Ystâd - £0.3 miliwn
- Cerbydau - £1.3 miliwn
- Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu - £0.4 miliwn
- Prosiectau a Chynlluniau Cyfalaf Eraill - £1.1 miliwn

Mae sawl mecanwaith mewn lle i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ddarparu, gan gynnwys:

- Meincnodi costau yn flynyddol gyda lluoedd eraill trwy gyfrwng proffiliau Gwerth am Arian Arolygiaeth Cwnstablâeth Ei Mawrhydi
- Sicrwydd blynyddol gan yr archwilyr mewnol (Deloitte) bod y system gyffredinol o reolaeth fewnol yn 'Gyfyngedig'
- Fy Mwrdd Comisiynu Strategol amlasiantaeth

Ym mis Tachwedd 2014 cyhoeddodd yr Arolygiaeth ei hasesiad PEEL blynyddol cyntaf. Dim ond asesiad rhannol oedd hwn gan fod yr Ysgrifennydd Cartref wedi comisiynu'r gwaith hanner ffordd drwy 2014. Cafodd y llu ei raddio fel un o dri oedd 'angen gwelliant' mewn ymateb i'r adolygiad o wariant, a oedd yn siomedig iawn. Fodd bynnag, mae'n bleser gennyf gadarnhau, adeg yr ailarolygu ym mis Hydref 2014, bod yr Arolygiaeth wedi canfod bod y llu wedi gwneud cynnydd da a'i fod yn cymryd camau i wella'r materion a nodwyd.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad blynyddol o'm Datganiad o Gyfrifon ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, gan adrodd am eu canfyddiadau y mis Medi canlynol. Dros sawl blwyddyn, mae'r Swyddfa Archwilio yn gyson wedi rhoi barn archwilio 'ddiamod' o' Datganiad o Gyfrifon a hefyd datganiad cadarnhaol am y trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn golygu bod y datganiadau ariannol yn rhoi golwg 'wir a theg' a'u bod wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddyd neu'r rheoliadau perthnasol, a'r safonau cyfrifyddia sy'n gymwys. Ac ar ben hynny fod gennyf systemau a phrosesau cadarn i sicrhau gwerth am arian.

EDRYCH YMLAEN

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda'r Prif Gwnstabl a phartneriaid eraill i sicrhau bod cymunedau Gwent yn cael gwasanaeth heddlu sydd o ansawdd uchel, sy'n effeithiol ac sy'n cynnig gwerth am arian. Credaf ein bod wedi gwneud cynnydd gwych dros y flwyddyn ddiwethaf ac rwy'n bwriadu adeiladu ar sail rhain yn y cyfnod nesaf er mwyn gwireddu'r Blaenoriaethau Heddlu a Throseddu. Yn rhan o hyn byddaf yn parhau i sefydlu a datblygu rôl Safer Gwent a mentrau fel Positive Futures.

Mae darparu heddlua hygyrch yng nghanol toriadau parhaus i gyllideb yr heddlu yn un o'r heriau mwyaf yr ydym yn eu hwynebu ac rydym mewn sefyllfa lle mae'n rhaid i ni gyflawni mwy gyda'r adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd. Yn rhan o hyn, byddwn yn gweithio i wneud £26 miliwn yn rhagor o arbedion er mwyn cwrdd â'n targedau.

O Ebrill 2015 bydd y llu wedi rhoi'r model gweithredu heddlu newydd ar waith. Mae'r newidiadau

yn cynnwys mwy o swyddogion gyda gwybodaeth leol wedi'u lleoli yn y gymuned, yn gweithio yn yr ardaloedd lle mae'r galw mwyaf amdanynt. Bydd Arolygyddion Cefnogi'r Gymdogaeth yn cael eu lleoli ym mhob Ardal Heddlua Leol yn rheoli digwyddiadau fel maent yn digwydd, a bydd mwy o adnoddau arbenigol ar gael yn lleol sy'n golygu ymateb cyflymach gyda gwell dealltwriaeth o faterion lleol. Byddaf yn monitro effaith y newidiadau hyn yn agos. Fodd bynnag, y disgwyl yw y bydd hyn yn gwella lefelau bodlonrwydd ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon.

Gyda bygythiad cynyddol seiberdroseddu a heriau diogelu plant ar-lein, rwy'n ymwybodol bod angen i ni fod yn fwy cydweithredol ac arloesol yn ein dull o ymdrin â throseddu ac wrth sicrhau bod gan ein swyddogion fynediad i'r dechnoleg ddiweddaraf i gefnogi eu swyddi herio. Dyna pam rwyf yn falch o gefnogi gwaith cydweithredol ledled Heddlu Gwent, De Cymru a Dyfed-Powys i asesu a lleihau'r galwadau a roddir ar ein lluoedd ar hyn o bryd. Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyllido gan arian o Grant Arloesi Heddlu y Swyddfa Gartref a bydd yn digwydd yn ystod 2015. Bydd canlyniadau'r prosiect yn ein helpu i weithredu yn fwy effeithlon gyda gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r cyhoedd ei angen gan y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Rydym eisoes yn cynllunio darnau o waith wedi'u targedu o amgylch effeithiau Stopio a Chwilio ar ein cymunedau ac rydym wedi dechrau gweithio gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gwent (GDAS) i wella gwasanaethau cymorth i'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig er mwyn darparu ymyriadau cynharach.

A minnau wedi lansio Connect Gwent yn llwyddiannus ym mis Mai, rwy'n credu'n wirioneddol y gallwn, drwy well gweithio mewn partneriaeth, wella profiad dioddefwyr yn sylweddol. Byddwn yn parhau i esblygu'r gwasanaeth a ddarperir yn ystod y misoedd sydd i ddod ac ehangu'r gefnogaeth sydd ar gael wrth iddo symud yn ei flaen. Fel bob amser, bydd eich adborth yn hanfodol i'm helpu i sicrhau bod Connect Gwent yn cwrdd â'ch anghenion.


Rwyf hefyd wedi darparu nawdd i gefnogi gwaith cydgysylltiedig ar feysydd yn ymwneud â dioddefwyr yn ystod 2015/16, yn enwedig i ddarparu hyfforddiant rhwng Heddlu Gwent a Gwasanaeth Erlyn y Goron i gynyddu nifer yr erlyniadau Troseddau Casineb anabledl llwyddiannus yng Ngwent. Byddaf yn monitro canlyniad yr hyfforddiant hwn trwy gyfrwng y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Ar hyn o bryd nid oes gofyn i heddluoedd gadw data ar y defnydd o adran 135 y Ddeddf Lechyd Meddwl (yr heddlu yn mynd i mewn i le preifat, er enghraifft cartref rhywun, a mynd ag unigolyn i le diogel) ond o'r flwyddyn nesaf ymlaen bydd cyfrifoldeb adrodd statudol a fydd yn cael ei fonitro drwy Grŵp Llywio Lechyd Meddwl y Llu, yr wyf yn cael fy nghynrychioli arno. Mae'r grŵp wedi datblygu Cynllun Gweithredu sy'n casglu ynghyd yr holl weithgarwch presennol i sbarduno gwelliannau a fesurir yn fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid allweddol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Bwrdd Lechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar weithredu'r Concordat lechyd Meddwl yn lleol.

Er mwyn gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion yn y lle cyntaf, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mewn cytundeb â'r Prif Gwnstabl, yn arwain gwaith i sefydlu Gwasanaeth Ymdrin â Chwynion Cychwynnol a fydd yn rhan o'm swyddfa. Bydd hwn yn cefnogi ffordd fwy effeithiol o weithio ac yn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion mewn modd addas.

Byddaf yn parhau i ymgysylltu â chymunedau Gwent er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a chanfyddiadau'r cyhoedd am y gwasanaethau heddlua y maent yn eu derbyn yn cael eu hystyried yn rhan o brosesau gwerthuso'r prosiect a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bu'n flwyddyn heriol ond eto'n un a ddaeth â boddhad, ond nawr rwy'n edrych ymlaen at y 12 mis nesaf a byddaf yn parhau i weithio'n galed i wella heddlua a bwrw ymlaen â phartneriaethau hanfodol i gadw ein cymunedau yn ddiogel. Fy ffocws, fel bob amser, fydd rhoi dioddefwyr yn gyntaf a sicrhau bod pobl Gwent yn cael y gwasanaeth gorau posibl.


Ian Johnston QPM

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent

